Arwain 2017

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Abertawe – y Brifysgol orau yng Nghymru

Abertawe yw'r brifysgol orau yng Nghymru yn ôl arolygon trwyadl a chydnabyddedig gan bapurau newydd *The Times* a *The Sunday Times*.

Yn ogystal â dringo yn nhablau cynghrair y ddau bapur newydd, fe wnaeth Abertawe hefyd gipio un o'u gwobrau newydd sbon, sef Prifysgol y Flwyddyn Cymru.

Daw'r llwyddiant hwn wrth i ddatblygiadau gwerth £60 miliwn ddechrau ar gampws Parc Singleton, lai na blwyddyn ar ôl agor Campws y Bae fis Medi'r llynedd.

Mae bellach 1,600 yn fwy o fyfyrwyr israddedig yn y Brifysgol o gymharu â thair blynedd yn ôl, a cheisiadau iddi wedi cynyddu dros 60% dros yr un cyfnod.

Un o elfennau pwysicaf ei llwyddiant yw bod Abertawe ymhlith y 30 prifysgol uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran gallu ei graddedigion i gael swyddi. "Mae Prifysgol Abertawe yn llawn haeddu derbyn ein gwobr Prifysgol y Flwyddyn Cymru," meddai Alastair McCall, Golygydd *The Sunday Times Good University Guide*.

"Mae agor Campws y Bae wedi gweddnewid y Brifysgol, gan gynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf i fyfyrwyr, a hynny mewn lleoliad gwych, gan ddenu buddsoddi enfawr ar ffurf prosiectau ymchwil.

"Mae'r campws newydd hefyd wedi denu llawer mwy o fyfyrwyr i'r Brifysgol wrth wneud Abertawe'n hynod ddeniadol i fyfyrwyr o Gymru a'r tu hwnt."

"Mae'r dystiolaeth yn glir fod yna bellach ddwy brifysgol o'r radd flaenaf yng Nghymru, Abertawe a Chaerdydd, sy'n lled debyg o ran ansawdd," meddai'r Athro Richard B. Davies, Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe.

"Mae'n dangos datblygiad sylweddol y Brifysgol dros y blynyddoedd diwethaf.

"Mae hyn i gyd yn newyddion da i'n myfyrwyr hefyd. Yn y farchnad gystadleuol am swyddi, nid eich gradd yn unig sy'n bwysig, ond hefyd enw da'r brifysgol y buoch ynddi.

"Bydd enw da Prifysgol Abertawe yn sicr o greu cyfleoedd gwell i'n graddedigion."

THE SUNDAY TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2017
WELSH UNIVERSITY OF THE YEAR

QS STARS RATED FOR EXCELLENCE 2015

THE WORLD UNIVERSITY RANKINGS
YMHLITH 351 – 400 Y BYD

REF2014 Research Excellence Framework
YMHLITH 30 UCHAF Y DU AM RAGORIAETH YMCHWIL

WHAT UNI? STUDENT CHOICE Awards 2017
WINNER POSTGRADUATE

Cydnabyddiaeth swyddogol i gwrs unigryw

Mae'r myfyrwyr cyntaf i ddilyn y cwrs BA Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe ar fin graddio yr haf yma. Dyma'r unig gwrs yng Nghymru lle mae modd astudio Cysylltiadau Cyhoeddus trwy'r Gymraeg.

Gyda'r cyfan o'r ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg, mae'r cwrs yn paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfa yn y byd cyfathrebu gan roi'r sgiliau ymarferol a'r cefndir academaidd iddyn nhw.

Yn ddiweddar, cafodd y cwrs ei gydnabod yn swyddogol gydag achrediad y **Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus (CIPR)**.

"Mae'n dda iawn cael gwybod bod ein cwrs yn cyd-fynd â gofynion y diwydiant," meddai Iwan Williams, Darlithydd Cysylltiadau Cyhoeddus y Coleg Cymraeg.

"Rydyn ni wedi rhoi pwyslais mawr o'r dechrau ar gydweithredu â'r diwydiant wrth ddatblygu'r cwrs, gyda phanel o aelodau blaenllaw o'r diwydiant yng Nghymru yn cyfarfod yn rheolaidd â ni.

CIPR CWRS ACHREDEDIG

"Dw i'n hynod falch fod yr ymdrechion hynny wedi cael eu cydnabod a dw i'n gobeithio y bydd darpar fyfyrwyr yn deall cymaint o fantais fydd iddyn nhw o astudio cwrs sydd ag iddo sêl bendith y CIPR."

Cyfuno'r academaidd â'r ymarferol

Mae'r myfyrwyr yn cael eu dysgu gan arbenigwyr sydd â phrofiad uniongyrchol helaeth o'r diwydiant, ochr yn ochr â darlithwyr â chefndir mwy academaidd, cyfuniad sy'n cynnig darpariaeth eang.

Pennaeth y cwrs yw **Non Vaughan Williams**, Darlithydd Cyfryngau Digidol y Coleg Cymraeg. Mae gan Non brofiad sylweddol o gydlynu cyrsiau cyfryngol yn y sector addysg uwch a blynyddoedd yn gynhyrchydd cynnwys cyfryngol.

Ymhlith ei meysydd dysgu ar y cwrs mae y genre dogfen, agweddau aml-blatfform a sgiliau cyfryngol ymarferol.

Hanesydd cyfryngau yw **Dr Elain Price** sy'n arbenigo yn hanes darlledu yng Nghymru a'r tu hwnt, yn natblygiad rhaglenni plant Cymraeg ac mewn animeiddio. Hi hefyd yw awdur y gyfrol 'Nid Sianel Gyffredin Mohoni!', sy'n rhoi hanes sefydlu S4C, ei phwnc doethuriaeth.

Cysylltiadau Cyhoeddus yw arbenigedd **Iwan Williams**, sydd â thros 20 mlynedd o brofiad ymarferol yn y maes, gan gynnwys trefnu ymgyrchoedd cyfathrebu aml-gyfryngol i sefydliadau mor amrywiol â'r Llynges Brydeinig a Microsoft a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

Mae ei feysydd dysgu yn ymwneud â phob agwedd o waith cysylltiadau cyhoeddus gan gynnwys hysbysebu, rheoli brand, marchnata ac ymwneud â'r wasg.

Owain Dafydd yw aelod diweddaraf staff y cwrs. Mae ei brofiad o weithio'n llaw-rydd yn y diwydiant wedi arwain at weithdai unigryw gyda myfyrwyr, er enghraifft ar fideos cerddorol.

"Mae sicrhau cyflogadwyedd ein myfyrwyr mewn byd cystadleuol yn hanfodol bwysig" medd Non Vaughan Williams.

Mae cyfle i wneud 'pitch' syniad aml-blatfform i ddarlledwyr, i gwblhau asesiadau sy'n efelychu amodau amserlen dynn byd gwaith ac i fanteisio ar gyfleoedd profiad gwaith. Eleni croesawyd ein myfyrwyr gan gwmnïau fel Telesgop, Tinopolis, Mela, Boom a Momentwm."

Y straeon a'r spin o'r Senedd

Rhan boblogaidd o'r cwrs eleni fu 'Cymru: Y Senedd, Straeon a'r Spin', modiwl ar y cyd gydag Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd.

"Edrych ar y gyd-berthynas rhwng newyddiadurwyr, lobïwyr a gwleidyddion a staff oedd y syniad y tu ôl i'r cwrs," meddai Iwan Williams.

"Bu'r myfyrwyr yn dadansoddi'r berthynas rhyngddyn nhw yn y Gymru ddatganoledig ac yn ystyried sut mae'r broses yn dylanwadu ar yr agenda newyddion."

"Gyda'r we a'r cyfryngau cymdeithasol, mae pawb yn gallu bod yn gyfathrebwyr," meddai.

"Mae deall hyn yn hanfodol er mwyn paratoi myfyrwyr i fod yn barod ar gyfer byd sy'n newid yn gyflym. Cafodd y myfyrwyr gyfle i drafod y cysyniad o gyfathrebu gwleidyddol gyda newyddiadurwyr, lobïwyr ac Aelodau'r Cynulliad."

Ysgol Haf i ddarpar fyfyrwyr

Os hoffech wybod mwy am y cwrs gradd Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus, bydd Ysgol Haf breswyl yn cael ei chynnal ar gampws Singleton y Brifysgol ar 3-4 Gorffennaf ar gyfer disgyblion chweched dosbarth. Am fwy o fanylion, ebostiwch n.v.williams@abertawe.ac.uk

Harry, Osian a Samuel wrth eu gwaith. Mae'r tri yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Llangynwyd, gyda dwy arall o'r un ysgol hefyd yn astudio'r cwrs yn Abertawe, sef Morgane-Alice a Joe-Dianna. "Mae'r cwrs wedi bod yn hynod o ddiddorol o'r dechrau, gyda chymysgedd o waith theori a gwaith ymarferol," meddai Osian. "Ieithoedd wnes i eu hastudio yn bennaf yn Llangynwyd, ac felly mae'r cwrs hwn yn rhywbeth hollol newydd i mi. Ond dw i heb edrych yn ôl o gwbl!"

Ymateb i ofynion gwleidydd

Cafodd myfyrwyr y modiwl ar gyfathrebu digidol gyfle i ymateb i ofynion cyhoeddusrwydd un o wleidyddion newydd y Cynulliad.

"Ry'n ni'n awyddus i'n myfyrwyr gael yr her o weithio yn y byd go-iawn," esboniodd Iwan Williams. "Ac fe fuon ni'n ffodus o gael cydweithrediad parod Aelod Cynulliad Castell Nedd, sydd wedi arbenigo mewn achosion yn ymwneud â'r cyfryngau yn ei waith blaenorol fel cyfreithiwr.

"Fe ddaeth **Jeremy Miles** AC i siarad gyda'r myfyrwyr, gan roi briff iddyn nhw ar gyfer creu ymgyrch gyfathrebu ddigidol iddo.

"Roedd yn awyddus i godi ei broffil ymysg pobl 30-50 oed, ac yn gofyn am help y myfyrwyr i allu cyflawni hyn.

"Roedd y myfyrwyr wrth eu bodd yn cael profiad gwerthfawr o her yn y byd go iawn, a da oedd eu gweld yn cael cyfle i gyflawni gwasanaeth defnyddiol i Jeremy Miles yr un pryd."

Cafodd y myfyrwyr hefyd y profiad heriol o gyflwyno eu hargymhellion iddo mewn 'pitch' cystadleuol.

Mae Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe ar flaen y gad wrth ddysgu am Gymru a'r byd o'n cwmpas.

O ddehongli llwch folcanig i ddadansoddi gwleidyddiaeth Cymru heddiw, mae'r adran uchel ei pharch yn cynnig profiadau heb eu hail. Mae ddau draean o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg o dan arweiniad darlithwyr sy'n arloeswyr yn eu maes ...

Rhai o staff cyfrwng Cymraeg yr Adran Ddaearyddiaeth

Dysgu am Gymru ac am y byd ...

Effaith cynhesu ar bedwar ban byd

Cafodd gwylwyr S4C gyfle i ddeall mwy am effeithiau cynhesu byd-eang mewn cyfres arbennig gan yr **Athro Siwan Davies** y llynedd.

Mae hi bellach newydd ddychwelyd ar ôl bod yn ffilmio ail gyfres o *Her yr Hinsawdd* yn California, Costa Rica ac Uganda.

"Ar ôl blynyddoedd o ddehongli data mewn labordy, roedd ffilmio'r ddwy gyfres yn daith bersonol i mi weld effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar wahanol wledydd," meddai.

"Yn ogystal â thynnu sylw at yr effeithiau negyddol amlwg, fe fydd y rhaglenni hefyd yn dangos sut mae gwahanol gymunedau'n ymateb i'r her.

"Roedd pwyslais mawr ar ynni gwyrdd yn California, ac fe fyddwn yn edrych ar gynllun arloesol i ailblannu 10 miliwn o goed yn Uganda, gyda chefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru a'r elusen Hwb Cymru Affrica."

Myfyrwyr yn arloesi

Mae Siwan Davies yn helpu myfyrwyr i arloesi gyda dull ymchwil o'r enw teffrocronoleg ar gyfer dysgu mwy am newidiadau hinsawdd y gorffennol.

Ar hyn o bryd, mae un o'i myfyrwyr doethuriaeth yn defnyddio'r dull wrth ddadansoddi gwaddodion yn Llyn Llech Owain ger Cross Hands yn Sir Gâr.

"Ymhlith y gwaddodion ar waelod y llyn, mae gronynnau llwch o losgfynyddoedd yng Ngwlad yr Ia a gogledd America," meddai **Gwydion Jones**, a ddaw'n wreiddiol o Dalybont yng Ngheredigion.

"Mae teffrocronoleg yn ein galluogi i ddefnyddio gwybodaeth sydd gennym am ffrwydradau folcanig yn y gorffennol i ddyddio gwaddodion eraill yn y llyn. O roi'r cyfan at ei gilydd, mae modd datblygu dealltwriaeth o newidiadau a fu yn yr hinsawdd mewn cyfnodau penodol yn y gorffennol."

Mesur llwch o losgfynydd

Mae **Dr Rhian Meara** wrth ei bodd yn gweld cynnydd cyson yn y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar y graddau Daearyddiaeth yn Abertawe a hynny i Ddaearyddwyr Ffisegol neu Ddaearyddwyr Dynol.

"Bellach mae modd astudio hyd at 66% o'r cwrs a hyd at 80 o gredydau bob blwyddyn drwy'r Gymraeg," meddai darlithydd Daearyddiaeth Ffisegol y Coleg Cymraeg, sy'n gyfrifol am gydlynu'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn yr adran.

"Wrth astudio drwy'r Gymraeg mae ein myfyrwyr yn cael y gorau o ddau fyd. Maen nhw'n cael sylw mewn grwpiau bach a hefyd yn manteisio ar adnoddau adran fawr o 20 o fyfyrwyr israddedig."

Mae'r arbenigedd yn cynnwys ei phrofiad helaeth hi'n astudio llosgfynyddoedd, geocemeg a pheryglon naturiol.

Wrth wneud ei doethuriaeth, bu'n ymchwilio i weithgaredd llosgfynyddoedd yng Ngwlad yr Iâ ac roedd hi yno pan oedd llwch folcanig o losgfynydd Eyjafjallajökull yn 2010 yn achosi argyfwng rhyngwladol.

Gyda chwmnïau awyrennau'n gorfod canslo'u gwasanaethau, roedd ei hymchwil hi'n gymorth i benderfynu pryd yr oedd hi'n ddiogel i hedfan unwaith eto.

Daearyddiaeth Gwleidyddiaeth ac Iaith

Mae gradd mewn Daearyddiaeth yn help i wrthsefyll 'newyddion ffug', meddai **Dr Angharad Closs Stephens**, arbenigwraig mewn Daearyddiaeth Gwleidyddol a Diwylliannol.

"Y ffordd orau o wrthsefyll newyddion ffug yw trwy ofyn cwestiynau yn ogystal ag ymchwilio i ffeithiau, ac mae ein myfyrwyr yn cael cyfle i wneud hynny," meddai.

"Yn fy nghwrs i, r'yn ni'n edrych ar wahanol fathau o argyfyngau yn Ewrop, yn ogystal â'r byd ehangach, gan gynnwys yr argyfwng ffoaduriaid, achosion o derfysgaeth, Brexit a'r cwestiwn o beth yw dyfodol 'Ewrop' bellach."

Un arall sy'n canolbwyntio ar themâu gwleidyddol fel cenedla-eth-oldeb yw'r **Dr Pyrs Gruffudd**, mewn modiwlau fel 'Pobl, Lle a Chenedl'.

O fis Medi ymlaen, fe fydd arbenigwr ar ddaearyddiaeth iaith yn ymuno â'r adran ac fe allai ei waith gyfrannu at gryfhau safle'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae **Osian Elias** yn cwblhau gradd doethuriaeth yn Aberystwyth ar Newid Ymddygiad a Pholisi Iaith.

Mae ymgyrchoedd i annog pobl i siarad Cymraeg yn wahanol i rai i annog ailgylchu neu atal ysmygu, meddai, am fod y rheiny'n fater o ddewis.

"Er mwyn newid ymddygiad iaith mae angen polisi cyhoeddus a fydd yn rhoi'r dewis," meddai.

Mae'n edrych ymlaen yn eiddgar at ddatblygu modiwlau newydd ar ddaearyddiaeth iaith pan fydd yn dechrau ar ei swydd ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Medi.

Cerdded at radd doethuriaeth

A hithau'n gerddwraig frwd, mae Amy Jones yn ei helfen wrth astudio Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer doethuriaeth yn Adran Ddaearyddiaeth Abertawe.

Rhan allweddol o'i hymchwil i'r defnydd o'r llwybr gan ymwelwyr o Gymru, Prydain a gweddill y byd oedd cerdded rhannau helaeth ohono ei hun.

"Dw i wedi bod wrth fy modd yn cerdded gwahanol rannau o'r llwybr ac yn clebran gyda cherddwyr eraill," meddai'r ferch o Lanaman yn Sir Gâr.

"Does dim amheuaeth fod gwneud yr ymdrech i'w gerdded yn cryfhau ymwybyddiaeth pobl o Gymru, a thrwy hynny yn cryfhau hunaniaeth Cymru."

Blwyddyn fythgofiadwy yn Chile

Mae Adran Ieithoedd Modern Abertawe yn cynnig cyrsiau gradd mewn Sbaeneg, Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg, neu gyfuniad. Rhan hanfodol o gyrsiau gradd pob myfyriwr yw treulio'u trydedd blwyddyn mewn gwlad dramor. Dyma hanes Megan Turner, sydd ar fin dychwelyd adref ar ôl treulio blwyddyn yn ymarfer ei Sbaeneg yn Chile ...

"Myfyrwraig yn fy nhrydedd flwyddyn ydw i, yn astudio Ffrangeg a Sbaeneg, a dw i wedi bod yn Chile ers mis Awst.

Dw i'n gweithio yma fel rhan o raglen y Cyngor Prydeinig yn helpu dysgu Saesneg – ond gwella fy Sbaeneg yw'r peth pwysicaf i mi, wrth gwrs!

Dw i'n byw mewn dinas fach yn ne'r wlad o'r enw Valdavia, dinas ddeniadol lle dw i'n cynnal dosbarthiadau yn y brifysgol, La Universidad Austral.

Roedd byw'n gyfan gwbl drwy'r Sbaeneg yn dipyn o sialens ar y dechrau, ond dyma oedd y rheswm y des i yma, ac mae'r bobl dw i wedi dod i'w hadnabod yn hynod groesawgar a charedig.

Dw i'n cael pleser mawr wrth sylwi bod fy amser yn Chile wedi helpu gwella fy Sbaeneg i'r fath raddau, ac wedi fy ngalluogi i gyfathrebu gyda chymaint o bobl newydd ar y cyfandir bywiog yma.

Wrth lwc, mae'r baich gwaith yn ysgafn, sy'n caniatau digonedd o amser i fi deithio i rannau eraill y wlad ar fy mhenwythnosau hir.

Mae Chile yn llawn tirwedd trawiadol o bob math, o anialwch i losgfynyddoedd i rewlifoedd ac oerfel y de.

Mae'n bosib mai uchafbwynt y flwyddyn i mi oedd cael tri mis hir o wyliau haf hemisffer y de (dros y Nadolig) i deithio ar hyd a lled y wlad, yn ogystal â'r gwledydd cyfagos; Bolivia, yr Ariannin, Uruguay a Brasil.

Er fy mod i'n dod i ddiwedd fy nghyfnod yma, ac ar fin hedfan yn ôl i Gymru, fydda' i ddim adref yn hir! Fe fyddaf ar fy ffordd i Ffrainc yn fuan i weithio mewn hostel yno dros fisoedd yr haf er mwyn gwella fy Ffrangeg cyn dychwelyd i'r brifysgol yn Abertawe."

Y lle perffaith i Ffion

Fe lwyddodd Ffion Angharad Roberts i gael y gorau o ddau fyd trwy ddod i Abertawe i astudio Bioleg – mae'n gallu dilyn ei chwrs drwy'r Gymraeg a manteisio ar ardal berffaith at ei gwaith.

"Fe wnes i ddewis dod i Abertawe oherwydd y cyfle i astudio drwy'r Gymraeg, ac oherwydd y cyfleoedd i wneud gwaith maes mewn safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig sydd gerllaw ym Mhenrhyn Gŵyr a Chynffig," meddai Ffion sy'n dod o Cross Hands, Sir Gaerfyrddin.

"Roedd Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg yn gyfle gwych i barhau gydag addysg Gymraeg ar ôl gwneud pob pwnc trwy'r Gymraeg yn Ysgol Gyfun Maes yr Yrfa.

"Roedd hefyd yn rhoi cyfle i mi gael fy nysgu mewn grŵp bach o fyfyrwyr eraill oedd yn siarad Cymraeg, ac felly roedd siawns i ddod i adnabod y darlithydd a'r myfyrwyr yn dda."

Cafodd gymorth yr adran i ennill lle prin ar Ysgol Haf Ecoleg gyda'r British Ecological Society y llynedd – "cyfle gwych", meddai, i gwrdd â myfyrwyr eraill ac ecolegwyr amlwg.

Ei huchelgais at y dyfodol – gwneud doethuriaeth yn Abertawe a mynd ymlaen i ddysgu Bioleg, ac ysbrydoli eraill, fel y cafodd hi ei hysbrydoli yn y Brifysgol.

Llysgenhadon yn edrych ymlaen

Mae tri o fyfyrwyr Abertawe ymhlith llysgenhadon y Coleg Cymraeg ar gyfer y flwyddyn nesaf – ac maen nhw i gyd yn edrych ymlaen.

Eu prif rôl fydd annog disgyblion ysgol i ddilyn rhan o'u cyrsiau prifysgol trwy'r Gymraeg ac amlygu manteision hynny. Bydda nhw'n cynrychioli'r Coleg Cymraeg mewn ymweliadau ag ysgolion a ffeiriau UCAS ac ar feysydd yr Eisteddfodau Cenedlaethol.

Daw **Lisa Penfold** yn wreiddiol o Fynachlog-ddu yn Sir Benfro ac mae hi yn ei hail flwyddyn yn Abertawe yn astudio'r gyfraith.

"Dw i'n edrych ymlaen at gael sgwrsio gyda nifer o ddisgyblion i sôn am ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg, a rhannu rhai o'm profiadau personol o fywyd prifysgol."

Myfyriwr Peirianneg Cemegol yn ei flwyddyn gyntaf yw **Rhys Morgan Owen Evans**, o Lanbadarn Fawr, Aberystwyth.

"Dw i wrth fy modd yn cael bod yn rhan o grŵp arbenigol sy'n cael y siawns o astudio Peirianneg drwy gyfrwng y Gymraeg," meddai.

"Mae'r dosbarthiadau yn llawer llai na'r darlithiau cyfrwng Saesneg, sy'n creu profiad agos atoch chi a mwy personol."

Astudio'r Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus y mae **Brengain Jones** o Lanfairfechan, cyn-ddisgybl o Ysgol y Creuddyn, Llandudno.

"Dw i wastad wedi ei gweld hi'n haws ysgrifennu a chael fy addysgu yn y Gymraeg felly roedd astudio yn y Gymraeg yn rhywbeth roeddwn i wir eisiau ei wneud," meddai.

"Dw i'n edrych ymlaen at siarad gyda'r darpar fyfyrwyr er mwyn eu perswadio i fanteisio ar yr un cyfleoedd a ges i."